

LIVING STREETS

# STRYDOEDD YSGOL

## EICH CANLLAW I GREU STRYDOEDD YSGOL DI-GEIR

# BETH AM WNEUD EIN STRYDOEDD YSGOLION YN DDI-GEIR!

## RYDYM AM I STRYDOEDD Y TU ALLAN I YSGOLION FOD YN DDI-GEIR AR DDECHRAU A DIWEDD Y DYDD, FEL Y GALL DISGYBLION GERDDED, MYND AR SGWTER NEU FEICIO'N DDIOGEL I'R YSGOL.



Mae sefydlu Stryd Ysgol yn gymharol syml a gall wneud gwahaniaeth enfawr i annog teuluoedd i gerdded i'r ysgol tra'n gwella ansawdd yr aer yn yr ardal.

**BYDD Y CANLLAW HWN YN DANGOS I CHI SUT I DDECHRAU ARNI**

### BETH YW STRYD YSGOL?

Mae cynlluniau Stryd Ysgol yn cau'r ffordd i gerbydau yn ystod oriau brig sef amseroedd danfon a chasglu. Mae cynghorau'n gosod arwyddion, rhwystrau a/neu gamerâu i atal pobl nad ydynt yn drigolion rhag gyrru drwy'r ardal. Dangoswyd mai ychydig iawn o effaith a gafodd Strydoedd Ysgol ar breswylwyr a busnesau ar y stryd gan fod mynediad yn dal i gael ei ganiatáu os yn gyrru ar gyflymder cerdded.

### BETH YW PARTH DI-GAR?

Mae Parthau Di-gar yn gam cyntaf da tuag at Stryd Ysgol lawn. Yma, anogir rhieni a gofalwyr i osgoi dod â cheir i'r parth drwy gerdded eu plant yr holl ffordd i'r ysgol neu barcio i ffwrdd o gatiau'r ysgol a cherdded y 10 munud diwethaf. Gall ein canllaw Parcio a Cherdded defnyddiol eich helpu i sefydlu hynny:

**WWW.LIVINGSTREETS.ORG.UK/MEDIA/2035/PARK-AND-STRIDE-PRINT.PDF**

# PAM STRYDOEDD YSGOL?

- Gall plant, teuluoedd, gofalwyr ac athrawon adennill eu strydoedd fel y gallant gerdded, beicio a mynd ar eu sgwter i'r ysgol;
- Gall Strydoedd Ysgol helpu i annog hyd yn oed mwy o deuluoedd i fynd allan o'u ceir ac allan i gerdded;
- Pan fydd teuluoedd yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol gall arwain at blant iachach a hapusach, ac mae'n helpu pawb i gael rhywfaint o ymarfer corff;
- Mae llwybrau ysgol mwy diogel yn golygu y gall plant fagu annibyniaeth drwy gerdded i'r ysgol ac o'r ysgol eu hunain;
- Does dim tagfeydd felly mae diogelwch ar y ffyrdd ac ansawdd aer yn gwella.






# CYDWEITHIO I AGOR EIN STRYDOEDD

## MAE'N RHYFEDDOL SUT Y GALL YCHYDIG O YSBRYD CYMUNEDOL DRAWSNEWID LLWYBR CERDDED. CAEL YSBRYDOLIAETH!



### CAU FFYRDD YSGOLION YN CAMDEN

Mae Ysgol Sant Joseph yn Camden ar Macklin Street, ffordd gul lle mae tagfeydd yn digwydd yn gyflym. Ar ôl sawl achos o ddamweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, cafodd plentyn ei daro gan gar.

Fe wnaeth Cyngor Camden gydnabod fod yn rhaid gwneud rhywbeth i wneud y stryd yn fwy diogel i blant a threialu ei chau yn ystod amseroedd danfon a chasglu yn ystod yr wythnos. Gwelodd busnesau a thrigolion lleol y manteision diogelwch a theimlent fod cau'r ffyrdd yn gadarnhaol ar gyfer y stryd.

**"ERS I'R FFORDD GAEL EI CHAU, RWY'N CREDU BOD PETHAU WEDI TAWELU LLAWER MWY, O RAN LLYGREDD HEFYD" - AMIE HENRY, RHIANT**




### LLWYBRAU DIOGEL I'R YSGOL


Roedd The Green yn Croydon yn ardal na allech fynd iddo cyn i Emma Hope-Fitch gymryd rhan i adfywio'r llwybr cerdded hwn. Gwelodd Prosiect Love Lane breswylwyr yn clirio'r tir, plannu coed ffrwythau a gosod offer chwarae i blant, ac erbyn hyn mae'n 'Stryd Chwarae'r Flwyddyn' yn Llundain (2016, 2017). Mae wedi trawsnewid cerdded ar hyd y llwybr mewn gwirionedd ac wedi troi The Green yn gyrchfan i deuluoedd lleol; gan greu lle i aros a chymdeithasu a throi'r daith adref o'r ysgol yn gyfle i chwarae gyda ffrindiau.

**"ERBYN HYN MAE'N UN O LWYBRAU CERDDED IACHAF, HAPUSAF A MWYAF POBLOGAIDD CROYDON" - AMY FOSTER, CYDLYNYDD GRŴP LIVING STREETS CROYDON**

## PARTHAU DI-GEIR YN LEEDS

Roedd rhieni yn Leeds mor bryderus am dagfeydd o amgylch gatiau'r ysgol fel eu bod wedi penderfynu cyd-dynnu i weithredu. Fel rhan o'r Mis Cerdded i'r Ysgol Rhyngwladol, fe wnaeth un grŵp dreialu Parth Di-gar o amgylch Ysgol Gynradd Moortown yn llwyddiannus i leihau traffig ac annog mwy o deuluoedd i gerdded i'r ysgol. Dewisodd rhai rhieni'r opsiwn Parcio a Cherdded - parcio i ffwrdd o gatiau'r ysgol a cherdded y rhan olaf o'u taith.

**"RYDYN NI EISIAU GWNEUD Y STRYDOEDD O AMGYLCH EIN HYSGOL YN LLEOEDD MWY DIOGEL A BRAFIACH I FOD. MAE CERDDED I'R YSGOL YN HELPU PLANT I SYMUD MWY A DATBLYGU SGILIAU DIOGELWCH AR Y FFYRDD. MAE HEFYD YN WELL I'R AMGYLCHEDD LLEOL A BYDD YN HELPU I LEIHAU TAGFEYDD. MAE'N WYCH CAEL YR YSGOL A CHYMAINT O DEULUOEDD YN CEFNOGI'R SYNIAD AC YN CYMRYD RHAN" - SARAH SOWERBY, RHIANT AC AELOD O GRŴP LIVING STREETS MOORTOWN**







## CYNGOR DINAS CAEREDIN

Caewyd 11 o ysgolion cynradd prifddinas yr Alban i draffig modur ar adegau brig yng nghynllun Strydoedd Ysgol Cyngor Dinas Caeredin.

Dewiswyd yr ysgolion gan eu bod yn profi problemau gyda gyrwyr yn mynd yn rhy agos at gatiau'r ysgol. Yn dilyn llwyddiant y cynllun, cafodd ei gyflwyno i fwy o ysgolion yng Nghaeredin.

**"DRWY GAU'R STRYDOEDD GER GATIAU'R YSGOL, MAE'R CYNGOR AC YSGOLION SY'N CYMRYD RHAN YN ANFON NEGES GROCH BOD CERDDED I'R YSGOL, HYD YN OED AM Y MUNUDAU DIWETHAF, YN EITHRIADOL O BWYSIG ER LLES POBL IFANC" CHRIS THOMPSON - CYDLYNYDD YSGOLION A PHROSIECTAU YN LIVING STREETS SCOTLAND**

# BAROD I GYMRYD Y CAM NESAF?

## PUM CAM ALLWEDDOL I DRAWSNEWID Y STRYDOEDD O AMGYLCH EICH YSGOL

### 1. GWNEWCH EICH YMCHWIL A DECHRAU CYNLLUNIO

Mae llawer o gynghorau lleol bellach yn cefnogi ysgolion i redeg Strydoedd Ysgol yn eu hardal. Gwiriwch p'un a oes cynllun y gallech ymuno ag ef.

Ewch ati i ddarganfod a oes gan eich ysgol aelod o staff ar gyfer teithio cynaliadwy, ymgysylltu â'r gymuned neu ddiogelwch ar y ffyrdd. Siaradwch â nhw am eich pryderon a'u cyfeirio at ein hadnoddau.

Unwaith y bydd eich ysgol yn eich cefnogi, siaradwch â rhieni eraill a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Holwch rieni am eich cynlluniau drwy gynnal digwyddiad neu siarad â nhw wrth gât yr ysgol.

Mae'n ddefnyddiol cael trigolion a busnesau lleol i ymuno, cyn i chi gadarnhau manylion.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol dod â'r holl bobl sydd â diddordeb at ei gilydd i ffurfio grŵp ymgyrch.

Dylech i gyd gytuno ar ddyddiad i ddechrau'r cynllun. Mae gan ein ffrindiau yn Playing Out lawer o wybodaeth am gau ffyrdd i gerbydau. Edrychwch ar eu canllawiau am ragor o fanylion: **WWW.PLAYINGOUT.NET**



### 2. BWRW YMLAEN Â'R GWAITH

Bydd angen i'r cyngor roi caniatâd ar gyfer cau unrhyw ffordd ac efallai y byddant yn gallu helpu gydag arwyddion, camerâu a chau'r ffordd.

Gallwch ddefnyddio ein camau gweithredu ar-lein i ysgrifennu at eich cyngor yn galw am Stryd Ysgol yma:

**WWW.LIVINGSTREETS.ORG.UK/PARENTS**

Efallai na fydd angen hyn os ydych yn treialu Parth Di-gar gwirfoddol, ond bydd angen i chi sicrhau bod yr ysgol yn gefnogol.



## 3. DYWEDWCH WRTH BOBL EI FOD YN DIGWYDD

Unwaith y bydd cynlluniau ar waith, datblygwch neges glir yn esbonio beth rydych chi'n ei wneud a pham. Siaradwch â phobl yn yr ysgol ac yn y gymuned leol am y Stryd Ysgol/Parth Di-Gar a thynnu sylw at fanteision niferus lleihau traffig o amgylch eich ysgol.

Bydd angen i chi roi gwybod i bobl pryd fydd y Stryd Ysgol neu'r Parth Di-Gar yn digwydd – yn yr ysgol ac yn y gymuned leol. Defnyddiwch rwydweithiau rhieni a chylchlythyrau, gwefannau a thudalennau cyfryngau cymdeithasol yr ysgol.

Ewch ati i hyrwyddo'r cynllun drwy arddangos posteri, mewn digwyddiadau cymunedol a thrwy guro ar ddrysau.

Dywedwch wrth y papurau newydd neu'r orsaf radio leol beth rydych chi'n ei wneud a pham.

## 4. PARATOI A RHEDEG Y CYNLLUN

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cynnal asesiad risg. Os ydych yn cynnal digwyddiad mae'n syniad da cael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Gofynnwch i bobl ymgymryd â rolau penodol i'w helpu i redeg yn ddidrafferth. Sicrhewch fod rhai stiwardiaid ar gael ar y diwrnod cyntaf i ateb unrhyw gwestiynau.

Gall WOW - yr her cerdded i'r ysgol drwy gydol y flwyddyn gan Living Streets - helpu'r newid i fynd yn ddi-gar. Ewch i **WWW.LIVINGSTREETS.ORG.UK/WOW** i gael eich ysgol i gymryd rhan. Meddyliwch am greu gweithgareddau i deuluoedd ddathlu dechrau'r cynllun.

Cymerwch olwg ar ein pecyn Cerdded i'r Ysgol i'r Teulu (**WWW.LIVINGSTREETS.ORG.UK/PARENTS**) am rai syniadau neu drwy Playing Out.

## 5. MYFYRIO AR SUT AETH HI

Diolchwch i bawb am chwarae eu rhan.

Gadewch i'r plant a'r teuluoedd wybod eu bod yn rhan o'i lwyddiant.

Ceisiwch ddenu mwy o bobl i gymryd rhan i sicrhau y bydd yn para a chadw'r momentwm.



LIVING STREETS

GENHEDLAETH YN ÔL, ROEDD 70% OHONOM YN CERDDED I'R YSGOL – ERBYN HYN TUA HANNER SY'N CERDDED I'R YSGOL. OS BYDDWN YN GWNEUD Y STRYDOEDD O AMGYLCH EIN HYSGOLION YN FWY DIOGEL, BYDD CERDDED I'R YSGOL YN OPSIWN HAWS A MWY DENIADOL I DEULUOEDD. MAE GWNEUD GATIAU'R YSGOL YN BARTH DI-GAR YN UN FFORDD O WNEUD HYNNY. MAE EIN MENTER STRYDOEDD YSGOL YN GWEITHIO GYDAG ATHRAWON, RHIENI A CHYNGHORAU FEL Y GALL PLANT ELWA AR GERDDED I'R YSGOL A CHERDDED O'R YSGOL.



# AGORWCH Y STRYDOEDD O AMGYLCH GIÂT EICH YSGOL

## EWCH I'N GWEFAN AM FWY O AWGRYMIADAU A THRICIAU AR SUT I DDECHRAU ARNI

## WWW.LIVINGSTREETS.ORG.UK/SCHOOLSTREETS

WWW.LIVINGSTREETS.ORG.UK

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn elusen gofrestredig Rhif 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (yr Alban).
Mae'r cwmni wedi'i gyfyngu trwy warant (Cymru a Lloegr), Rhif cofrestru'r cwmni. 5368409. 2 America Square, Llundain EC3N 2LU.